PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Aberystwyth University

Y Strategaeth Iaith Newydd ‘Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050’

Lewis, Huw; Royles, Elin; Edwards, Catrin Wyn

Publication date:
2016

Citation for published version (APA):
Lewis, H., Royles, E., & Edwards, C. W. (2016, Hyd 19). Y Strategaeth Iaith Newydd ‘Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050’: Adnabod Gwersi o Waith Ymchwil Cyfoes. Prifysgol Aberystwyth | Aberystwyth University.

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 08. Dec. 2023

Canolfan Wleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, WISERD@Aberystwyth

Y Strategaeth Iaith Newydd 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050': Adnabod Gwersi o Waith Ymchwil Cyfoes

Seminar Ymchwil a Pholisi
Canolfan y Pierhead, Bae Caerdydd
19 Hydref 2016

Cyd-destun

Bwriad y seminar uchod a gynhaliwyd gan Ganolfan Wleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, WISERD@Aberystwyth oedd cynnig cyfle i drafod canfyddiadau tri o brosiectau ymchwil diweddar ym maes polisi a chynllunio iaith, gyda'r bwriad o fwydo i'r broses datblygu a mireinio strategaeth iaith newydd Llywodraeth Cymru, ynghyd â datblygiadau perthnasol eraill yng Nghymru.

Cyflwynwyd tri prosiect ymchwil sy'n berthnasol i gynnwys y drafft ymgynghorol o'r strategaeth iaith newydd, *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*:

1. Adfywio iaith a newid cymdeithasol: dadansoddi cynnwys strategaethau iaith Llywodraeth Cymru, Dr Huw Lewis a Dr Elin Royles
2. Ymateb i fewnfudo: cymharu a chloriannu modelau cymhathu, Dr Catrin Wyn Edwards
3. Newid Ymddygiad a pholisi iaith, Osian Elias a'r Athro Rhys Jones

Mae'r adroddiad briffio hwn yn crynhoi cynnwys y cyflwyniadau ynghyd a'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth ddilynol.

Cyflwyniad 1 - Adfywio iaith a newid cymdeithasol: dadansoddi cynnwys strategaethau iaith Llywodraeth Cymru, Dr Huw Lewis a Dr Elin Royles

1.1 Cyflwyniad

Eglurwyd bod y prosiect ymchwil hwn wedi ymgymryd a dadansoddiad manwl o gynnwys rhai o'r prif ddogfennau strategol sy'n llywio gwaith polisi a chynllunio iaith Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Y cwestiynau ymchwil sydd wedi bod yn sail i'r gwaith yw:

- I ba raddau mae'r dogfennau yn ategu themâu pwysig ym maes polisi a chynllunio iaith?
- I ba raddau mae'r dogfennau'n rhoi sylw i effeithiau newid cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol cyfoes?

Canolbwyntiodd y cyflwyniad yn ystod y seminar ar drafod rhai o ganfyddiadau'r ymchwil yn achos Cymru. Fel rhan o hyn trafodwyd a chymharwyd data a gasglwyd wrth ddadansoddi cynnwys *Iaith Pawb* (2003), *Iaith Fyw: Iaith Byw* (2012) a hefyd cynnwys y ddogfen ymgynghorol *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* (2016). Canolbwyntiwyd yn bennaf ar ganfyddiadau perthnasol i'r adrannau canlynol o'r ddogfen ymgynghorol: Maes datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith; Maes datblygu 3: Addysg; a Maes datblygu 4: Pobl

1.2 Maes datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith

I ddechrau, trafodwyd y data a gasglwyd ynghylch yr actorion hynny a bwysleisir yn y dogfennau fel rhai sy'n ganolog i'r dasg o hybu rhagolygon y Gymraeg. Dadleuwyd bod y data hwn yn tynnu sylw at ddiffyg cydbwysedd yn y ddogfen *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* rhwng y pwyslais ar gyfraniad Llywodraeth Cymru o'i gymharu â chyfraniad actorion eraill. Amlygwyd hyn gan hyn gan y tueddiadau canlynol:

- y cynnydd sylweddol erbyn cyhoeddi *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* yn y pwyslais ar rôl Llywodraeth Cymru;
- cyn lleied o bwyslais a roddir ar gyfraniad llywodraeth leol ar draws y dair dogfen;
- y dirywiad sylweddol a fu ar draws y dogfennau yn y pwyslais ar gyfraniad cyrff cyhoeddus eraill;
- y diffyg sylw ar draws y tair dogfen i gyfraniad gyrff trydydd sector a chyrff cymdeithas sifil.

Argymhellion:

- Mae angen cydnabod yn fwy eglur beth yw hyd a lled yr hyn sy'n bosib ac yn briodol i lywodraeth ei wneud wrth geisio atal a gwrthdroi shifft iaith.
- Mae galw am ystyried yr angen am gynllunio iaith mwy cyfannol sy'n cwmpasu gweithgaredd ystod o actorion, yn enwedig o ystyried y gwasgu cyfredol ar wariant cyhoeddus sy'n debygol o effeithio ar allu ariannu llywodraeth.
- Dylid anelu i adnabod ffyrdd amrywiol o weithredu wrth gynllunio'n ieithyddol. Gall hyn gynnwys pwyslais uwch ar rwymedigaethau deddfwriaethol; rhoi mwy o ystyriaeth i gyfraniad posib cyrff trydydd sector a chyrff cymdeithas sifil fel partneriaid mewn cynllunio ieithyddol mwy cyfannol.

1.3 Maes datblygu 3: Addysg

Yn ail, trafodwyd y data a gasglwyd ynglŷn â'r peuoedd a bwysleisir yn y dogfennau fel rhai allweddol os yw'r Gymraeg am ffynnu. Dadleuwyd bod y dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at ddiffyg cydbwysedd yn y ddogfen *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* rhwng y sylw a roddir i ymyrraethau sydd â'r nod o hybu defnydd iaith o'i gymharu ag ymyrraethau sydd â'r nod o hybu caffael iaith. Amlygwyd hyn gan hyn gan y tueddiadau canlynol:

- cymaint mwy o bwyslais a roddir ar addysg o'i gymharu â pheuoedd eraill;
- lleihad ers dogfennau 2003 a 2012 yn y pwyslais ar beuoedd megis y teulu, y gymuned, bywyd cymdeithasol a'r gweithle - h.y. peuoedd allweddol o safbwynt defnydd cyson o iaith.

Argymhellion:

- Mae lle i bwysleisio bod sicrhau dyfodol hyfyw i'r Gymraeg yn golygu *cyfuniad* o gynyddu nifer siaradwyr ac o gynyddu lefelau defnydd.
- Mae'r targed o filiwn o siaradwyr yn ymwneud yn bennaf â chynllunio caffael a dylid mabwysiadu targedau ychwanegol o ran yr angen i gynyddu lefelau defnydd.
- Mae lle i rhoi sylw manwl drwy'r strategaeth i'r graddau mae'r ymyrraethau a drafodir yn taro cydbwysedd addas rhwng cynyddu niferoedd a lefelau defnydd.

1.4 Maes datblygu 4: Pobl

Yn drydydd, trafodwyd data a gasglwyd ynglŷn â'r math o newidiadau cymdeithasol cyfoes sy'n cael eu trafod yn y dogfennau wrth ystyried dyfodol y Gymraeg. Tynnwyd sylw at y diffyg ystyriaeth o dueddiadau cyfoes sydd bellach yn effeithio ar y modd y mae pobl yn byw, yn ymwneud â'i gilydd, ac yn sgil hynny, yn defnyddio'u hieithoedd. Heblaw am y drafodaeth ar bwysigrwydd dylanwad technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ragolygon y Gymraeg, mae'r

diffyg sylw digonol i natur y cyd-destun cymdeithasol yn broblematig ac yn awgrymu dehongliad eithaf statig o'r boblogaeth. Amlygwyd hyn gan hyn gan y nodweddion canlynol:

- Yr unig nodwedd sy'n cael sylw cyson ar draws y dogfennau a astudiwyd yw'r cynnydd yn nylanwad TGCH.
- Rhoddir ychydig sylw i gynnydd mewn symudoledd personol (e.e. teithio i waith) a cheir mwy o gyfeirio at yr ymdeimlad bod tiriogaeth/lleoliad bellach yn llai o ddylanwad ar ymwneud cymdeithasol, ac ychydig mwy o gyfeirio at ffurfiau o ymwneud cymdeithasol mwy ffurfiol (e.e. cymunedau diddordeb).
- Mae diffyg sylw llwyr i effaith mewnfudo, allfudo ac nid oes cyfeiriadau chwaith at effaith tueddiadau megis trefoli a gwrthdrefoli, sydd mor gysylltiedig â'n dealltwriaeth o fewnfudo ac allfudo yng Nghymru a hefyd i shifft poblogaeth o fewn Cymru.

Argymhellion:

- Dylid parhau i roi sylw i faterion megis: cynnydd mewn symudoledd personol; newid o ran dylanwad tiriogaeth/lleoliad ar arferion ymwneud cymdeithasol; twf ffurfiau mwy ffurfiol a rhwydweithiol o ymwneud cymdeithasol (e.e. cymunedau diddordeb).
- Dylid cyfeirio at yr angen bellach i asesu'n ofalus y graddau mae'r gymuned/gymdogaeth leol yn parhau'n brif ddylanwad ar arferion defnydd iaith unigolion, a photensial datblygu ymyrraethau polisi sy'n cydnabod y cynnydd mewn symudoledd personol.
- Mae lle i ystyried gwneud cynllunio iaith rhanbarthol neu sirol yn rhan integredig o'r strategaeth, ochr yn ochr â'r lefelau lleol a chymunedol.

1.5 Prif bwyntiau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd os oedd tuedd i'r ddogfen ymgynghorol ymddangos fel strategaeth sy'n canolbwyntio ar rôl y Llywodraeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn hytrach na strategaeth ar gyfer dyfodol y Gymraeg. Byddai dilyn yr ail lwybr yn arwain at ddogfen sy'n gwahaniaethu'n fwy eglur rhwng yr hyn sy'n briodol i'r Llywodraeth ei wneud a'r math o ymyrraethau a gweithgareddau lle dylid disgwyl i gyrff eraill chwarae rôl mwy arweiniol.

- Trafodwyd os oedd lle am eglurder pellach ynglŷn â'r hyn y gall llywodraeth effeithio arno mewn perthynas â iaith, beth ddylai llywodraeth effeithio arno, a'r hyn na all y llywodraeth ddylanwadu arno, yn enwedig gan fod natur y drafodaeth yn newid ar hyn mewn meysydd polisi eraill, e.e. iechyd.

- Awgrymwyd bod yr ymchwil yn tynnu sylw at y peryg nad yw'r strategaeth newydd wedi ei chyd-destunoli'n ddigonol ac nad oedd yn ymateb yn ddigonol i newidiadau cymdeithasol sy'n effeithio ar beuoedd allweddol i hyfywedd iaith. Nodwyd hefyd bod y diffyg perthnasu rhwng cynnwys y ddogfen ymgynghorol a gwaith polisi yn y gorffennol hefyd yn broblematig. Awgrymwyd bod angen gwaith annibynnol allanol er mwyn cefnogi gwaith y Llywodraeth wrth ddatblygu'r strategaeth.

- Holwyd os byddai'n fuddiol datblygu ymchwil pellach er mwyn pwysoli cyfraniad gwahanol beuoedd, megis y teulu, addysg, y gymuned ayb, o ran yr budd tebygol y gallant ei gynhyrchu wrth geisio hybu defnydd iaith.

Cyflwyniad 2 - Ymateb i fewnfudo: cymharu a chloriannu modelau cymhathu, Dr Catrin Wyn Edwards

2.1 Cyflwyniad

Cyd-destun y cyflwyniad hwn oedd gwaith ymchwil doethurol ac ôl-ddoethurol yn astudio polisiau iaith-mewn-addysg. Yn benodol, bu'r ymchwil yn cymharu y modealu addysg gwahanol a ddefnyddiwyd er mwyn ymateb i fewnfudo yng Nghatalwnia, Quebec, New Brunswick a Chymru. Cyflwynwyd canfyddiadau ymchwil oedd yn ymwneud yn bennaf â'r adrannau canlynol o'r ddogfen ymgynghorol: Y Rhagair a Maes Datblygu 3: Addysg.

2.2 Rhagair

Croesawyd ieithwedd y Rhagair a'r pwyslais ar y syniad bod y Gymraeg yn gyfrifoldeb i bawb sy'n byw yng Nghymru a'r angen i hyrwyddo ei pherchnogaeth, gan gynnwys ymysg 'siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith'. Nodwyd bod y math yma o ieithwedd yn fodd o wneud perchnogaeth o'r Gymraeg yn agored i rai sy'n mewnfudo i Gymru, gan annog cyfrannu drwy un ai ddysgu'r iaith neu gefnogi eu plant i wneud hynny.

2.3 Maes Datblygu 2: Normaleiddio neu Faes Datblygu 3: Addysg

Pwysleisiwyd nad oes angen bod yn siaradwyr rhugl er mwyn cyfrannu at a chefnogi'r weledigaeth o weld y Gymraeg yn ffynu, a bod hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried oblygiadau mewnfudo. Her i'r strategaeth felly yw cydnabod yr angen am ddulliau o annog rhieni sy'n mewnfudo, ac sydd ddim yn siarad yr iaith eu hunain, i gefnogi ymdrechion eu plant, drwy fabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith.

O ran dull o roi hyn ar waith, tynnwyd sylw at enghraifft o arfer da yng Nghatalwnia. Yn ardal Vic arweiniodd menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Catalwnia a'r Ajuntament lleol at sefydlu gofod addysgol penodol, yr *Espai de Benvinguda Educativa.* Amcan y prosiect oedd darparu gofod pwrpasol lle roedd modd i deuluoedd o fewnfudwyr gael eu cyflwyno i elfennau o gymdeithas a iaith Catalwnia. Fodd bynnag nid oedd hyn yn digwydd ar ffurf cyrsiau iaith ffurfiol. Ystyriwyd y ganolfan yn brosiect llwyddiannus. Drwy dargedu teuluoedd, a'u hannog i ddod gyda'i gilydd i'r ganolfan integreiddio, gwelwyd bod hyd yn oed y rhieni nad oedd yn mynd ati i ddysgu'r Gatalaneg yn rhugl eu hunain, yn ymrymo i gefnogi ymdrechion eu plant. O ganlyniad ymatebwyd yn llwyddiannus i'r her o ddylanwadu ar ddewisiadau ieithyddol teuluoedd mewnfudol.

Argymhellion:

- Cryfhau'r sylw a roddir yn y ddogfen i oblygiadau mewnfudo ac yn benodol ystyried mentrau i annog rhieni a theuluoedd mewnfudol nad sy'n siarad yr iaith i gefnogi intigreiddiad eu plant drwy fabwysiadu agwedd gadarnhaol at y Gymraeg.

2.4 Maes Datblygu 3: Addysg

Awgrymwyd bod lle i fabwysiadu dehongliad mwy cynhwysfawr o addysg nag a wneir yn y ddogfen ymgyngorol ar hyn o bryd. Nodwyd mai'r duedd yw i bwysleisio'r sector addysg statudol ac mai prin yw'r sylw yn y ddogfen i addysg ymhlith oedolion ac i ddarpariaeth addysg a hyfforddiant mewn cyd-destunau penodol, er enghraifft yn y gweithle. Dadleuwyd bod lle i

roi sylw pellach i'r gweithle fel pau pwysig lle gellir datblygu ystod o gyrdiau hyfforddiant er mwyn annog caffael y Gymraeg.

Trafodwyd engrhaifft Quebec ble defnyddir y gweithle i integreiddio mewnfudwyr neu ddarparu cyrsiau iaith i fewnfudwyr. Y gyriant ar gyfer hyn fu cyflwyno Mesur 101 (1977) a sefydlodd disgwyliad y byddai busnesau sy'n cyflogi mwy na 50 o bobl yn symud i ddefnyddio'r Ffrangeg ym mhob agwedd o'r sefydliad. Er mwyn Ffrangegeiddio'r gweithle yn y modd hwn mae cyrsiau iaith wedi'u teilwra ar gyfer y gweithle ac ar gyfer proffesiynau arbennig, megis maes iechyd, gweinyddu, busnes, y gyfraith ayb. Y canlyniad yw bod dysgwyr yn cael eu paratoi mewn modd ymarferol i fedru defnyddio'r Ffrangeg yn y byd gwaith.

Argymhellion:

- Cryfhau'r pwyslais ar rôl y gweithle fel pau arwyddocaol i ddysgu iaith a hefyd i ddatblygu sgiliau ac agweddau siaradwyr Cymraeg at yr iaith.
- Ychwanegu cyfeiriad penodol at ffyrdd o gyflwyno'r Gymraeg i fewnfudwyr.

2.5 Maes Datblygu 4: Pobl

Er bod y rhagair y ddogfen ymgynghorol yn pwysleisio'r angen am weledigaeth sy'n cynnwys pawb yng Nghymru, beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol, nid oes cyfeiriad uniongyrchol at fewnfudwyr yn y ddogfen. Nid oes ychwaith unrhyw drafod ar gyfraniad posib siaradwyr Cymraeg rhugl i'r dasg o geisio integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol.

Yn sgil hyn, cyflwynwyd ymchwil i brosiect *Voluntariat per la Llengua* (VxL) o Gatalwnia. Ers 2003 mae'r prosiect hwn wedi gweithio i sefydlu partneriaethau rhwng unigolion sy'n dysgu'r Gatalaneg â siaradwyr rhugl gyda'r nod o gynnig cefnogaeth i ddysgwyr a'u hannog i ddefnyddio'r Gatalaneg fel cyfrwng naturiol. Cychwynnodd y prosiect fel menter leol ond bellach mae'n rhaglen lywodraethol sy'n cael ei rheoli gan y *Consorci per a la Normalització Lingüística*. Mae'r fenter wedi bod yn un llwyddiannus dros ben ac wedi ehangu fel bod busnesau a chymdeithasau chwaraeon ayb yn cydweithio i hwyluso creu'r partneriaethau neu gyplau iaith.

Argymhellion:

- Cynnwys brawddeg sy'n cyfeirio at gyfraniad siaradwyr Cymraeg rhugl i'r dasg o gefnogi dysgwyr.
- Datblygu rhaglen i annog siaradwyr Cymraeg i fod yn weithgar yn y maes dysgu anffurfiol a chyfrannu at ymdrechion dysgwyr / mewnfudwyr i ddysgu'r iaith, gan ystyried dilyn model y *Voluntariat per la Llengua*.

2.6 Prif bwyntiau'n codi o'r drafodaeth

- Cefnogwyd y syniad bod lle i ddatblygu ymyrraethau ar gyfer y gweithle yn y strategaeth.
- Nodwyd hefyd bod lle i ystyried polisi rhanbarthol cliriach fel rhan o'r strategaeth. Dadleuwyd y byddai'r Fro Gymraeg yn elwa o lawer mwy o sylw i bwysigrwydd gwaith a'r economi ac ar bwysleisio addysgu yn y gweithle, yn hytrach nac y tu allan i'r gweithle fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

- Yn wyneb yr her o fesur effeithiolrwydd ymyrraethau, a'r gofyn i ddatblygu dulliau i werthuso'r strategaeth iaith maes o law, holwyd a oedd unrhyw enghreifftiau o arfer da o sut i werthuso effaith ymyrraethau ieithyddol yn y gwahanol wledydd. Cynigwyd enghreifftiau o dystiolaeth ansoddol o lwyddiant mewn rhai achosion.
- Holwyd beth oedd lefel gwariant mewn peuoedd megis integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol a nodwyd iddo fod yn flaenoriaeth uchel yn Quebec, ond bod hyn wedi deillio o gonsensws gwleidyddol traws-bleidiol a ddarparodd sefydlogrwydd i lunwyr a gweithredwyr polisi.
- Ehangodd y drafodaeth i ystyried y gwahaniaethau pwysig rhwng achosion Quebec, Chatalwnia a Chymru a holwyd faint y gellid ei ddysgu wrth gymharu ymyrraethau yn yr achosion hyn. Nodwyd y gall Cymru ddysgu o achos Catalwnia ynglyn a'r modd y gall disgwrs addas ynghyd a chefnogaeth ymarferol greu disgwyliad ymhlith mewnfudwyr y dylid ymdrechu i ddysgu'r iaith. Nodwyd bod lle i ddatblygu'r pwyslais yn y strategaeth ar gyd-destun mewnfudo a ffyrdd o hyrwyddo gwerth addysg Gymraeg.
- Croesawyd y pwyslais a roddwyd yn y ddogfen ymgynghorol bod hybu'r Gymraeg yn dasg i bawb yng Nghymru, ond holwyd i ba raddau mae'r di-Gymraeg wedi eu cynnwys yn y trafodaethau ynglyn a chynnwys y strategaeth newydd.
- Trafodwyd y modd mae deddfwriaeth yn dylanwadu ar gynllunio iaith yn y gweithle. Ystyriwyd bod angen rhoi mwy o sylw i oblygiadau hir dymor y safonau iaith, ochr yn ochr â datblygiadau diweddar ym maes Cymraeg i Oedolion.

<u>Cyflwyniad 3 - Newid Ymddygiad a pholisi iaith, Osian Elias a'r Athro Rhys Jones</u>

3.1 Cyd-destun

Amcan y cyflwyniad hwn oedd cynnig gorolwg o fframweithiau pwysig ym maes Newid Ymddygiad a thrafod eu perthnasedd i weithgaredd polisi a chynllunio iaith. Eglurwyd mai ymagwedd at bolisi yw'r perspectif ymddyngiadol a all ategu gwaith polisi a chynllunio bwriadus. Gan mai ymagwedd polisi ydyw, yn hytrach na maes penodol, cynigiwyd mewnwelediadau o faes newid ymddygiad a oedd yn berthnasol i'r chwe maes datblygu yn y ddogfen ymgynghorol.

3.2 Maes datblygu 1: Cynllunio a pholisi Iaith

Cynigwyd y gallai'r adran hon fanteisio ar fframweithiau polisi ymddygiadol wrth lunio polisi, yn enwedig ffranwaith East (hawdd, atyniadol, cymdeithasol, amserol). Er bod hyn efallai'n fwy perthnasol ar gyfer rhaglenni polisi a fyddai'n deillio o'r strategaeth maes o law, byddai'n fuddiol cael cyfeiriad at hyn o fewn y strategaeth i hyrwyddo hynny. Nodwyd hefyd ei bod yn haws cynllunio mewn rhai peuoedd nac eraill a bod y dull o gynllunio ar gyfer peuoedd gwahanol yn amrywio.

Argymhelliad: Nodi'r bwriad i fanteisio ar fframweithiau polisi ymddygiadol.

3.3 Maes datblygu 2: Normaleiddio

Tynnwyd sylw at y modd y gellid ehangu'r defnydd o farchnata cymdeithasol a gofodol i normaleiddio iaith. Yn hytrach na'r disgwyliad fod y cyfrifoldeb ar y siaradwr, gellid cynyddu'r pwyslais ar ddylunio polisi mewn modd sy'n cynyddu'r cyfleon i normaleiddio'r defnydd o'r

Gymraeg. Cysylltwyd hyn gyda'r ddogfen 'Bwrw Mlaen' lle roedd datganiadau calonogol am yr angen i wella dealltwriaeth o'r maes seicoleg newid ymddygiad.

Argymhelliad: Defnyddio marchnata cymdeithasol a gofodol a dylunio gofodol i normaleiddio'r iaith.

3.4 Maes Datblygu 3: Addysg

Trafodwyd gwerth targedu cyfnodau penodol o newid yn y system addysg er mwyn gwella cyfraddau dilyniant, er enghraifft, o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd neu TGAU i Lefel-A. Cyfeiriwyd at arfer da trefniadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o hyrwyddo cofrestru di-ofyn myfyrwyr ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg sydd wedi cynyddu cofrestriadau myfyrwyr ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg. Amlygai hyn y potensial i ymyrraethau sy'n targedu cyfnodau penodol a'r modd y gall polisi addysg elwa o ffocysu ar benderfyniadau pendant sy'n gyrru dewisiadau iaith yn yr hir dymor (e.e. dewis iaith adeg dewis pynciau Lefel-A).

Argymhelliad: Targedu cyfnodau newid pendant i wella cyfraddau dilyniant

3.5 Maes datblygu 4: Pobl

Pwysleisiwyd y gall targedu bwriadus o nodau ac o unigolion penodol gyfrannu at gryfhau effeithiolrwydd ymyrraethau. O'r herwydd, awgrymwyd addasiadau fyddai'n gwneud yr hyn a argymhellwyd yn fwy penodol gan roi mwy o bwyslais ar dargedu. Yn hytrach na "cynyddu cyfleoedd" sy'n iaith annelwig, cynigwyd y dylid bod yn fwy penodol o ran digwyddiadau, nodau, neu achlysuron pendant, gan dargedu penderfyniad all ddylanwadu ar ddewisiadau iaith unigolyn yn yr hir dymor. Enghraifft o hyn yw potensial y gweithle.

Argymhellion:

- Targedu bwriadus o nodau ac unigolion penodol mewn modd amserol
- Symud i ffwrdd o'r cysyniad o hyder, gan ganolbwyntio yn hytrach ar greu gofodau sy'n normaleiddio'r Gymraeg

3.6 Maes datblygu 5: Cefnogi

Er mwyn hybu defnydd, pwysleisiwyd gwerth targedu cyfryngau penodol mewn modd mwy egnïol, e.e. digwyddiadau neu gampau sydd yn cysylltu'n fwy pendant â hunaniaeth ieithyddol siaradwyr Cymraeg. Gellir defnyddio negeswyr amlwg wrth wneud hyn.

Argymhelliad: Defnyddio negeswyr amlwg i hysbysu siaradwyr o'r gefnogaeth a'r cyfryngau.

3.7 Maes datblygu 6: Hawliau

Ystyriwyd bod yr adran hon yn cymryd yn ganiataol unwaith bod darpariaeth yn bodoli y bydd pobl yn ei ddefnyddio. Byddai perspectif newid ymddygiad, fodd bynnag, yn pwysleisio'r angen i ddarparu ysgogiad er mwyn normaleiddio gofodau lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod ohonynt. Y rhesymeg dros hyn yw fod dewis iaith fel arfer yn ddewis eilaidd ac o'r herwydd ni ddylai'r cyfrifoldeb gwympo ar ysgwyddau'r siaradwr Cymraeg. O'r safbwynt hwn, felly, ni

ddylid dibynnu ar lefel hyder unigolyn i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu defnyddio. Yn hytrach, dylai darparwyr gymryd cyfrifoldeb dros wireddu hawliau siaradwyr.

Argymhelliad: Dylid symud tuag at weithdrefnau hawliau lle mae'r cyfrifoldeb ar y darparwr i gynnig yn Gymraeg, yn hytrach na sefyllfa lle mae angen ysgogi'r defnyddiwr.

3.8 Prif bwyntiau'n codi o'r drafodaeth

- Wrth drafod goblygiadau'r safbwynt newid ymddygiad o ran rôl y wladwriaeth i ymyrryd, awgrymwyd ei fod yn galluogi'r wladwriaeth i ymyrryd mewn ffordd gynnil. Golygai hyn nad dewisiadau o ddeddfu neu elfen fwy neo-ryddfrydol yn unig sy'n wynebu llywodraeth, ond hefyd man canol lle gall gwladwriaethau fod yn benseiri dewis sy'n annog pobl i wneud dewisiadau penodol.
- Codwyd y mater o dystiolaeth ac i ba raddau mae modd profi effeithiolrwydd ymyrraethau sydd wedi eu dylanwadu gan newid ymddygiad. Eglurwyd bod hyn yn thema bwysig yn enwedig gan fod rhai o'r ymyrraethau yn ymddangos fel pe baent yn debygol o fod yn wrth-gynhyrchiol. O'r herwydd, mae gofyn datblygu ffyrdd trylwyr o fesur effeithiolrwydd (e.e. *randomised control trials*). Nodwyd nad yw treialau o'r fath bob amser yn addas yn y cyd-destun iaith. Eglurwyd bod bwriad i dreialu ymyrraethau penodol gan ddefnyddio dulliau mwy cadarn a systematig i werthuso a datblygu'r sail tystiolaeth.
- Wrth ystyried polisiau iaith blaenorol, hawliwyd bod egwyddorion newid ymddygiad wedi llywio rhai o brosiectau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, er efallai nad oedd hynny'n gwbl fwriadol. Fodd bynnag, nodwyd bod nifer o'r prosiectau hyn bellach wedi cael eu dileu gan y Llywodraeth.
- Cafwyd trafodaeth ehangach ar y graddau roedd newid ymddygiad wedi dylanwadu ar ymyrraethau ieithyddol yn y gorffennol, a hynny ar sail synnwyr cyffredin yn hytrach nag ar sail dealltwiaeth o wyddor ymddygiad, gan wedyn addasu ymyrraethau ar lawr gwlad. Awgrymyd felly bod arbenigedd yn bodoli yn barod mewn sawl maes, a nifer ohonynt yn cael eu hystyried yn ymchwil doethurol Osian Elias. Un enghraifft drafodwyd yn y cyd-destun hwn oedd y bathodyn Iaith Gwaith. Er bod peth anghytundeb, nodwyd fod hyn wedi bod yn llwyddiannus.
- Trafodwyd y mater o ysgogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd, ochr yn ochr â hyder ieithyddol. Awgrymwyd ei bod hi'n bwysig gweithio ar gynyddu hyder ymysg siaradwyr a chwestiynwyd a oedd cyd-destunau priodol yn bodoli i greu amgylchedd cryf i ddylanwadu ar ddewisiadau iaith.
- Trafodwyd y gwerth o ystyried ymyrraethau mewn meysydd polisi eraill, megis maes iechyd a delio gyda phobl ifanc di-waith. Er bod peth budd i hyn, nodwyd y gwahaniaethau o ran polisi a natur wahanol dewisiadau iaith oherwydd: i) yn aml, nid oes dewis; a ii) nid yw'r syniad o ymddygiad 'da' a 'drwg' yn medru cael eu trosi yn yr un modd i sefyllfa iaith.
- Awgrymwyd bod potensial i ddefnyddio dadansoddiad o'r graddau y cymerir ystyriaeth o egwyddorion newid ymddygiad fel maen prawf ar gyfer unrhyw ymyrraethau newydd, ac felly mewn rhaglenni sy'n cael eu hariannu fel rhan o'r ymagwedd bolisi.
- Gwerthuswyd pwysigrwydd deddfwriaeth fel offeryn i newid ymddygiad a chwestiynwyd os oedd deddfu i newid ymddygiad yn broblematig. Nodwyd y duedd bod bwlch rhwng agweddau ac ymddygiad pobl ac y gallai deddfu gyfrannu tuag at alinio agweddau gydag ymddygiad.